

Cynllun Gwers

Blwyddyn: 5 (Ysgol Gymraeg, plant o deuluoedd Saesneg).	Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfarthrebu – Gwers Cymraeg.	Nod y wers: Ysgrifennu darn o farddoniaeth ar y pwnc destun ‘Yr afon’ ar gyfer Eisteddfod Crymych.
Gwybodaeth flaenorol: - Yn y gwersi blaenorol mae’r disgyblion wedi ymarfer treigladau (gweler rhestr benodol o dan ffocws iaith), felly bydd angen iddynt dreiglo’n gywir. - Yn y wers ddiwethaf roedd y disgyblion wedi creu mat cymorth eu hunan yn eu llyfrau. Roedd hyn yn cynnwys y 5 synnwyr a geiriau allweddol a gallant eu helpu i ysgrifennu eu cerddi.	Geirfa allweddol: - Afon - Synhwyrâu (Gweld, Clywed, Blasau, Aroglu a Chyffwrdd) - Odli - Cerdd - Teimladau Ffocws iaith: - Treigladau (yn enwedig treiglad llaes ar ôl ‘ei’ benywaidd, treiglad meddal ar ôl ‘ei’ gwrywaidd, treiglad trwynol ar ôl ‘fy’, a threiglad meddal ar ôl yr arddodiad). - Odli-dewis gyda’r disgyblion i ysgrifennu cerdd sydd yn odli. Strategaethau Dysgu ac Addysgu: - Ailadrodd-helpu i adalw gwybodaeth ac i sicrhau bod y disgyblion yn cofio gwybodaeth. - Brechdan iaith-ar lafar, dweud y gair Cymraeg wedyn Saesneg wedyn Cymraeg eto i’r disgyblion i ddeall ystyr gair.	Gweithgareddau: Bydd y disgyblion yn defnyddio’r ‘chromebooks/cromlyfrau’ i ymchwilio geiriau ‘waw’ i ddisgrifio’r afon. Byddant yn defnyddio odliadur i ddarganfod geiriau sy’n odli. Bydd y disgyblion yn mynd ati i ysgrifennu pennill cyntaf o’r gerdd. Byddant yn defnyddio’r syniadau a gasglwyd ar y bwrdd gwyn i lenwi eu cerddi. Bydd y disgyblion mwyaf hyderus yn gweithio’n annibynnol tra bod y disgyblion llai hyderus yn gweithio fesul grŵp o dan fy arweiniad. Fe fyddai’n modelu ar y bwrdd gwyn a gweithio gyda’r disgyblion i ysgrifennu cerdd sydd yn odli. Bydd y disgyblion yn ailddrafftio’r gerdd ar y gluniaduron, gyda chyfleoedd iddynt wella eu cerddi fel ydynt yn cywiro.
Adnoddau: ‘Chromebooks’ neu ‘Cromlyfrau’ - Banc o eiriau (wedi creu yn llyfr y disgyblion-gweler enghraifft odan yr adran adnoddau) - Enghreifftiau a thaflen gynorthwyol i ddisgyblion llai hyderus. - Thesawrws - Pwerbwynt y wers		






Adnoddau



Dysgu blaenorol-paratoi

Dyma enghraifft un disgybl o'r wers paratoi. Fe wnaethom baratoi ar y cyd fel dosbarth i greu mat cymorth o ansoddeiriau a geiriau allweddol i gynnwys yn eu cerddi.



Dydd Iau

30ain o Ionawr

Nod: Ysgrifennu cerdd 'Yr Afon'







Yr Afon

Yr afon sy'n llifo trwy waelod y cwm
heibio'r goedwig a trwy'r caeau,


Y dŵr yn dawnsio fel y plant
ar ymyl yr afon yn chwarae,

Golau'r haul sy'n disgleirio ar ben y dŵr
fel sêr yn awyr du'r nos,

Sŵn heddychlon yr afon yn rhedeg
sydd i'w glywed ar hyd y clos.

Meini Prawf Llwyddiant


- Defnyddio'r 5 synhwyrâu:
(gweld, clywed, arogli, cyffwrdd, blasu)
- Ansoddeiriau
- Berfau
- Adferfau
- **Personoli**



Personoli

- Rhoi teimladau a gweithredoedd dynol i wrthrychau

e.e..Roedd yr haul yn gwenu.



Gwerthusiad:

Bwriad y wers hon oedd i ygrifennu darn o farddoniaeth ar y testun ‘Yr Afon’. Hwn oedd darn o waith cartref a osodwyd gan Eisteddfod Crymych (ac hefyd Eisteddfod yr Urdd). Dewisais i wneud y wers hyn er mwyn gallu cael cynigion ar gyfer Eisteddfod Crymych gan fy mod yn teimlo bod hi’n bwysig iawn i gefnogi Eisteddfodau lleol. Fel ysgol yn Ne Sir Benfro nid yw llawer o’r disgyblion yn dod o gartrefi Cymreig, ac efallai na chafwyd ei gyflwyno i lawer o’r traddodiadau gan gynnwys Eisteddfodau. Dyma rheswm arall ar gyfer dewis y dasg yma.

Y gwers a welir yw’r ail wers o fewn gyfres o wersi ysgrifennu cerdd. Y gwers cyntaf oedd y sesiwn paratoi, ac hwn oedd y wers ysgrifennu cerdd ar y ‘chromebooks’ neu ‘cromlyfrau’. Pwrpas defyddio rhain oedd i gael y cerddi wedi’i teipio allan i wneud newidiadau a chywiro yn hawdd. Doedd dim llawer o amser gyda ni i gynllunio, ysgrifennu, gwirio ac anfon y cerddi bant i Eisteddfod Crymych, felly hyn oedd y syniad gorau.

Ar y cyfan, credaf aeth y wers yn dda. Fe wnes i addasu adnoddau o’r wers blaenorol er mwyn cefnogi y disgyblion lleiaf hyderus i fedru ysgrifennu cerdd o safon hefyd. Rhain oedd pennill cyntaf o gerdd wedi’i ysgrifennu allan (1af, 3ydd, 5ed, a 7fed llinell). Tasg y disgyblion yma oedd i feddwl am y llinellau i gyd-fynd gyda rhain. Gyda’r disgyblion gwan iawn fe wnes i wneud hyn fel grwp ffocws, gan fod rhai o’r disgyblion yn cael trafferth gyda darllen.

Er mwyn gwella fy ngwers rydw i’n meddwl y byddwn i’n ysgrifennu'r llinellau cyntaf fel dosbarth ac yna'n gadael i'r disgyblion fynd ati i ysgrifennu rhai eu hunain. Byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw un a oedd yn ei chael hi'n anodd neu'n ddryslyd ar y trywydd iawn o'r eiliad gyntaf.

Roedd y disgyblion yn gallu dewis lefel eu her yn y gwersi hyn, naill ai drwy weithio'n annibynnol, gweithio'n annibynnol ond gyda deunyddiau cefnogol iddynt eu defnyddio neu weithio gyda mi fel grŵp gan ddefnyddio'r deunydd cefnogol er mwyn ysgrifennu eu cerdd. Gan mai un o'r deuddeg egwyddor addysgegol (Donaldson, 2015) yw annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, credaf fod hyn yn argoeli'n dda. Mae rhoi'r cyfle i ddisgyblion herio eu hunain yn fuddiol i'w hunan-barch a'u cymhelliant eu hunain i orffen tasgau. Mae Dweck yn cytuno â hyn wrth i fyfyrwyr ddatblygu gwytnwch pan fydd ganddynt reolaeth dros eu dysgu (2006). Un arall sy'n cytuno â hyn yw Vygotsky (1978) sy'n credu pan fydd y gofyn hwnnw ychydig y tu hwnt i allu presennol myfyriwr ond sy'n dal yn gyraeddadwy gyda chymorth, mae'r dysgu gorau yn digwydd.

Trwy gydol y wers gwnes yn siŵr fy mod yn modelu i'r disgyblion, boed hynny'n fodelu sut i ddefnyddio 'odliadur' neu sut i osod nodau arbennig ar ddogfen Word. Yn unol â damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura (1986) mae modelu yn gwneud cysyniadau haniaethol yn fwy pendant trwy eu harddangos ar waith. Mae hefyd yn darparu llwybr clir i lwyddiant i'r disgyblion. Trwy ddefnyddio'r model 'dwi'n gwneud, rydyn ni'n gwneud, ti'n gwneud' roedden nhw'n gallu deall yn well beth oedd yn ofynnol ganddyn nhw a chwblhau'r gwaith hyd eithaf eu gallu.

Defnyddiais ailadrodd yn aml hefyd i helpu fy nisgyblion i gofio pwyntiau allweddol. Mae damcaniaeth Ebbinghaus (1885) o'r 'gromlin anghofio' yn dangos bod gwybodaeth yn cael ei cholli a'i hanghofio os na chaiff ei hatgyfnerthu. roedd hyn yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy hanfodol i ailadrodd gwybodaeth er mwyn i'r disgyblion gadw'r wybodaeth hon. Fe wnes i hefyd defnyddio 'brechdan iaith' i helpu disgyblion i ddeall geiriau Cymraeg os nad oeddent yn hyderus gydag ystyr geiriau.

Cyfeirnod:

Bandura, A. (1986). *Social Foundations of Thought and Action: A Social Cognitive Theory*. Prentice Hall.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Dweck, C.S. (2006) *Mindset: The new psychology of success*. New York: Random House.

Ebbinghaus, H. (1885). *Memory: A Contribution to Experimental Psychology*. Dover Publications.

Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.